

TIRWEDD A THIRLUN

gan Toni Schiavone
ynghyd ag atodiad gan Olygydd Gwaith Maes

Datblygu a defnyddio geirfa ddaearyddol yw un o ofynion penodol y cwricwlwm daearyddiaeth, ac mae pawb sydd yn dysgu'r pwnc yn ymwybodol o rai termau a geiriau sydd yn peri trafferth yn yr ysgolion. Dau air o'r fath yw **tirwedd** a **tirlun**. Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y geiriau hyn ac fe all disgrifio lluniau yn ôl tirwedd a thirlun yn aml gynorthwyo i wneud hynny'n gywir.

Cyfeiria'r gair **tirwedd** yn benodol at **uchder a siap y tir**, tra mae'r gair **tirlun** yn cynnwys nid yn unig ffurf y tir ond **hefyd y defnydd a wneir o'r tir**. Cyfeiria "defnydd tir" at yr adeiladau ar y tir a'r defnydd a wneir o'r adeiladau yn ogystal â'r defnydd a wneir o dir agored.

Ymarfer yn seiliedig ar lun (A) a'r braslun ohono (B)

1. Gofyn i'r dosbarth gynnig geiriau i enwi nodweddion a disgrifio uchder a siap y tir i greu banc geiriau, yna rhestru'r rhai sydd yn disgrifio'r llun dan sylw (A)
2. Nodi'r defnydd tir a welir yn y llun er mwyn gwahaniaethu rhwng ystyr **tirwedd** a **tirlun**.
3. Labelu'r braslun gan gyfeirio at y **tirlun cyfan** trwy ddefnyddio'r geiriau sydd yn cyfeirio at y **tirwedd** yn ogystal â'r **defnydd tir**.
4. Llunio disgrifiad syml mewn brawddegau llawn o'r **tirwedd**.
5. Llunio ail ddisgrifiad tebyg i ddisgrifio'r **tirlun** cyfan.

Llun (A)

Chwarel y Penrhyn uwchben Bethesda, Gwynedd



Braslun (B)



Atodiad yn seiliedig ar awyrlun (C) o aber Afon Conwy

1. Gofyn i'r dosbarth gynnig geiriau i enwi nodweddion a disgrifio uchder a siap y tir i greu banc geiriau, yna rhestru'r rhai sydd yn disgrifio'r llun dan sylw. (C)
2. Nodi'r defnydd tir a welir yn y llun er mwyn gwahaniaethu rhwng ystyr **tirwedd** a **thirlun**.
3. Gwneud braslun yn seiliedig ar y llun (fel a wnaethpwyd ar eu cyfer yn yr ymarfer blaenorol) a'i labelu fel o'r blaen, gan gyfeirio at y **tirlun cyfan** trwy ddefnyddio'r geiriau sydd yn cyfeirio at y **tirwedd** yn ogystal â'r **defnydd tir**.
4. Llunio disgrifiad syml mewn brawddegau llawn o'r **tirwedd**.
5. Llunio ail ddisgrifiad tebyg i ddisgrifio'r **tirlun** cyfan.

i] Gellir ymestyn yr astudiaeth i ystyried pwrpas a defnydd y nodweddion hanesyddol yng nghyd-destun y **gorffennol** (milwrol a masnachol) a'r **presennol** (twristiaeth a hamdden.)

ii] Cymerwyd y llun pan roedd twnnel yr A55 yn cael ei adeiladu a buddiol fyddai i ddisgyblion lleol ddringo i ardal castell Deganwy a chymharu'r olygfa erbyn hyn, gan efallai ystyried datblygiadau mwy diweddar Morfa Conwy a Marina Deganwy.

Llun C
Aber Afon Conwy



Llun trwy ganiatâd caredig © Y Goron:CBHC